Polisi Amgylcheddol
Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

1.0 Datganiad Polisi

1.1 Mae'r Cyngor wedi datgan argyfwng hinsawdd ac yn ymrwymo i sicrhau bod y sir yn parhau i fod yn gartref bywiog, hyfyw a chynaliadwy i'n plant ac i genedlaethau'r dyfodol.

1.2 Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn ymrwymedig i'r canlynol:

- Dod yn ddefnyddiwr di-garbon net erbyn 2030;
- Diogelu'r amgylchedd drwy leihau effeithiau negyddol ein gweithgareddau a bod yn arweinwyr cymunedol wrth hyrwyddo gwaith rheoli amgylcheddol cyfrifol;
- Nodi a chydymffurfio gyda'r holl rwymedigaethau cydymffurfio amgylcheddol perthnasol i'n sefydliad;
- Atal llygredd aer, dŵr a thir o'n gweithgareddau a cheisio lleihau llygredd o ffynonellau eraill.

1.3 Mae'r System Rheoli Amgylcheddol a weithredir gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn cydymffurfio â Safon ddiweddaraf y Ddraig Werdd ar gyfer Rheolaeth Amgylcheddol 2016.

2.0 Cwmpas y Polisi

2.1 Mae Polisi Amgylcheddol Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn cwmpasu holl wasanaethau'r Awdurdod. Mae hyn yn cynnwys Gwasanaethau Corfforaethol, Economi a Diwylliant, Yr Amgylchedd, Ffyrdd a Chyfleusterau, Gwasanaethau Rheoleiddio a Thai, Gwasanaeth Asesiadau Refeniw a Budd-daliadau, Gofal Cymdeithasol ac Addysg.

2.2 Mae'r prif agweddau amgylcheddol o'n gweithgareddau yn cysylltu â'n blaenoriaethau amgylcheddol ym meysydd allyriadau nwyon tŷ gwydr, y defnydd o adnoddau naturiol, rheoli gwastraff, rhyddhau elifion masnach a storio tanwydd a pherygl llygru cysylltiol.

3.0 Amcanion Gwella

3.1 Mae Cynllun Corfforaethol y Cyngor ar gyfer 2022-2027 wedi'i alinio â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 ac mae'n canolbwyntio ar 5 nod hirdymor:

1. Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn wydn.
2. Mae pobl yng Nghonwy yn gwerthfawrogi ac yn edrych ar ôl yr amgylchedd.
3. Mae pobl yng Nghonwy yn byw mewn sir sy'n ffynnu, sydd â llai o dlodi ac sy'n cefnogi dysgu a sgiliau.
4. Mae gan bobl yng Nghonwy fynediad at lety fforddiadwy ac addas o safon uchel sy'n gwella safon eu bywyd
5. Mae gan bobl Conwy iechyd a lles da ac maent yn teimlo'n ddiogel.

3.2 Caiff perfformiad tuag at gyflawni blaenoriaethau'r Cynllun Corfforaethol ei fonitro'n agos ac adroddir amdano yn flynyddol.

4.0 Adolygiad a Chymeradwyaeth

4.1 Caiff y polisi hwn ei adolygu o leiaf un waith y flwyddyn neu'n amlach, yn unol ag anghenion gweithredol ac anghenion busnes. Fel rhan o'r adolygiad, caiff y polisi hwn ei gyflwyno i Fwrdd Rhaglen Her yr Hinsawdd i gymeradwyo unrhyw ddiwygiadau.

Cymeradwywyd: *Noddwr y Rhaglen*, Rhaglen Her yr Hinsawdd

This document is also available in English